# Mesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2011

**2011 mccc 3**

**6 Dehongli**

(1) Yn y Mesur hwn—

ystyr "awdurdod lleol" (*"local authority"*) yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru,

ystyr "y Cynulliad" *("the Assembly")* yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru,

"Deddf 1984 " *("the 1984 Act")* yw Deddf Adeiladu 1984 (p.55),

ystyr "gwaith adeiladu" ("*building work*") yw gwaith i godi, estyn neu addasu adeilad,

**[**[F1]"mae i "fflat" ("flat") yr ystyr a roddir i "flat" yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Adeiladu 2010(1)"**]**

**[**[F1]"mae i "tŷ annedd" ("dwelling-house") yr ystyr a roddir i "dwelling-house" yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Adeiladu 2010"**]**

"hysbysiad corff cyhoeddus" (*"public body's notice"*) yw'r ystyr a roddir iddo yn Rhan 2 o Ddeddf 1984,

"hysbysiad cychwynnol" (*"initial notice"*) yw'r ystyr a roddir iddo yn Rhan 2 o Ddeddf 1984,

ystyr "perchennog" (*"owner"*) yw'r ystyr a roddir iddo yn Neddf 1984,

ystyr "preswylfa" *("residence")* yw—

(a) tŷ annedd,

(b) fflat,

(c) **[**[F2]man yng Nghymru lle y mae gwasanaeth cartref gofal o fewn ystyr Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 yn cael ei ddarparu'n gyfan gwbl neu'n bennaf i bersonau sy'n 18 oed neu'n hŷn,**]**

(d) **[**[F3]neuadd breswyl;

(e) ystafell neu gyfres o ystafelloedd, nad yw'n dŷ annedd nac yn fflat ac sy'n cael ei defnyddio gan un neu fwy o bersonau i fyw a chysgu ynddi

ac sy'n cynnwys ystafell mewn hostel neu dŷ preswyl, ond nid yw'n cynnwys—

(i) ystafell mewn gwesty;

(ii) ystafell mewn hostel sy'n cael ei darparu fel llety dros dro i'r rhai hynny sy'n preswylio fel arfer yn rhywle arall;

(iii) ystafell mewn ysbyty neu sefydliad tebyg arall sy'n cael ei defnyddio fel llety i gleifion;

(iv) ystafelloedd mewn carchar neu sefydliad troseddwyr ifanc;

(v) mangre ar gyfer lletya personau sydd wedi eu remandio ar fechnïaeth;

(vi) mangre ar gyfer lletya personau y gall fod yn ofynnol iddynt, drwy orchymyn prawf breswylio yno, [F4]...**]**

(ea) **[**[F5]mangre lle y mae gwasanaeth llety diogel o fewn ystyr Rhan 1 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (dccc 2) yn cael ei ddarparu, neu;**]**

(f) **[**[F6]man lle y mae gwasanaeth cartref gofal o fewn ystyr Rhan 1 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 yn cael ei ddarparu'n gyfan gwbl neu'n bennaf i blant, ond nid—

(i) sefydliad yn y sector addysg bellach fel y'i diffinnir gan adran 91(3) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992;

(ii) man lle y mae llety yn cael ei ddarparu at ddibenion—

(aa) gwyliau;

(bb) gweithgaredd hamdden, adloniant, chwaraeon, diwylliannol neu addysgol;

oni bai bod plentyn yn cael ei letya yno am fwy nag 28 o ddiwrnodau mewn unrhyw gyfnod o 12 mis; a**]**

lle y mae adeilad yn cynnwys un breswylfa neu fwy, yn cynnwys unrhyw ran o'r adeilad hwnnw y bwriedir iddo gael ei ddefnyddio gan y rheini sy'n byw yn y breswylfa honno neu'r preswylfeydd hynny at ddibenion atodol i'r feddiannaeth honno sy'n gyffredin â'i gilydd neu â defnyddwyr eraill yr adeilad,

ystyr "rhagnodwyd" *("prescribed")* yw wedi'i ragnodi gan reoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru,

ystyr "rheoliadau adeiladu" *("building regulations")* yw rheoliadau a wneir o dan adran 1 o Ddeddf 1984,

ystyr "swyddog awdurdodedig" (*"authorised officer"*) yw swyddog awdurdod lleol sydd wedi'i awdurdodi yn ysgrifenedig gan yr awdurdod hwnnw, boed yn gyffredinol neu'n benodol, i weithredu mewn materion o fath arbennig neu mewn mater penodol, ac

ystyr "swyddog priodol" (*"proper officer"*), mewn perthynas â phwrpas ac ag awdurdod lleol, yw swyddog a benodwyd at y diben hwnnw gan yr awdurdod hwnnw.

**[**[F7](1A) Yn is-adran (1), ystyr "plentyn" yw person sydd o dan 18 oed.**]**

(2) Yn ddarostyngedig i is-adran (3), caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, ddiwygio diffiniad "preswylfa" yn is-adran (1) drwy—

(a) ychwanegu dosbarth o fangreoedd preswyl, neu

(b) diwygio'r disgrifiad o ddosbarth o fangreoedd preswyl sydd eisoes yn bodoli.

(3) Yn is-adran (2), ystyr "mangreoedd preswyl" ("*residential premises*") yw'r ystyr a roddir iddo yn—

(a) paragraff 7 o Ran 1 Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), unwaith y bydd mewn grym, neu,

(b) tan hynny, Mater 11.1 yn Rhan 1 Atodlen 5 i'r Ddeddf honno.

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Geiriau yn a. 6(1) wedi eu mewnosod (30.4.2014) gan Gorchymyn Diogelwch Tân Domestig (Diffinio Preswylfa) (Cymru) 2013 (O.S. 2013/2723), erglau. 1(2), **2(2)**

**F2** Geiriau yn a. 6(1) wedi eu hamnewid (2.4.2018) gan Rheoliadau Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol) 2018 (O.S. 2018/195), rhlau. 2(1), **44(2)(a)**

**F3** Geiriau yn a. 6(1) wedi eu hamnewid (30.4.2014) gan Gorchymyn Diogelwch Tân Domestig (Diffinio Preswylfa) (Cymru) 2013 (O.S. 2013/2723), erglau. 1(2), **2(3)(a)**

**F4** Gair yn a. 6(1) wedi ei hepgor (2.4.2018) yn rhinwedd Rheoliadau Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol) 2018 (O.S. 2018/195), rhlau. 2(1), **44(2)(b)**

**F5** Geiriau yn a. 6(1) wedi eu mewnosod (2.4.2018) gan Rheoliadau Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol) 2018 (O.S. 2018/195), rhlau. 2(1), **44(2)(c)**

**F6** Geiriau yn a. 6(1) wedi eu hamnewid (2.4.2018) gan Rheoliadau Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol) 2018 (O.S. 2018/195), rhlau. 2(1), **44(2)(d)**

**F7** A. 6(1A) wedi ei fewnosod (2.4.2018) gan Rheoliadau Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol) 2018 (O.S. 2018/195), rhlau. 2(1), **44(3)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 6 mewn grym ar 8.4.2011, gweler **a. 9(2)(b)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2011, Adran 6.